



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



---

# Pysgota ac allforio cynhyrchion bwyd môr o 1 Ionawr 2021

Cymorth ar gyfer pysgotwyr  
masnachol, masnachwyr ac allforwyr

---

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2021

Mae'r DU wedi gwneud cytundeb gyda'r UE ar ei pherthynas yn y dyfodol.

Mae'r canllaw cyflym hwn yn cyfeirio at y canllawiau a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer pob agwedd ar bysgota masnachol, allforio/mewnforio bwyd môr neu lanio dalfa'n uniongyrchol, ac at y rheolau sydd yn berthnasol o 11pm ar 31 Rhagfyr 2020, ar gyfer busnesau pysgota neu allforio bwyd môr yng Nghymru.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y prosesau newydd a chofrestru i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bysgodfeydd ar [wefan Gov.UK](https://www.gov.uk) a [gwefan Paratoi Cymru](https://www.paratoi.gov.uk)

## Cynnwys

Pysgota masnachol yn nyfroedd y DU, yr UE neu ddyfroedd eraill .....	3
Cofnodi eich dalfa a'ch gwerthiant.....	4
Glanio eich dalfa yn y DU.....	5
Gwerthu eich dalfa .....	5
Glanio eich dalfa yn yr UE.....	6
Glanio eich dalfa yng Ngogledd Iwerddon.....	7
Labelu Bwyd.....	7
Allforio eich dalfa neu gynnyrch pysgod i'r UE .....	8
Cludo cysgod a chynhyrchion pysgod.....	9
Storio a Phrosesu.....	9
Mewnforio o'r UE i'r DU .....	9
Symud nwyddau i mewn, allan o Ogledd Iwerddon neu drwyddo .....	10
Cwotâu Pysgota .....	10
Cyllid a grantiau sydd ar gael .....	10
Rheoli datganiadau'r tollau a datganiadau TAW .....	11
Rheoli a gorfodi .....	12
Gwybod y terfynau. ....	12
Mudiadau lles a llesiant sy'n darparu cefnogaeth.....	13
Rhagor o wybodaeth a chymorth .....	13

## **Pysgota masnachol yn nyfroedd y DU, yr UE neu ddyfroedd eraill**

Nid oes unrhyw newid i hawliau a chyfrifoldebau cychod sydd wedi'u cofrestru yn y DU sy'n pysgota yn nyfroedd y DU. Rhaid i bob perchennog cwch barhau i gydymffurfio â'r gyfraith ac amodau ei drwydded, gan gynnwys gofynion adrodd presennol (fel llyfrau logio), meini prawf y cyswllt economaidd a'r [polisi gwaredu pysgod](#). Anfonodd Llywodraeth Cymru drwydded ddiwygiedig i bysgota yn nyfroedd y DU i ddeiliaid trwydded cwch yng Nghymru ar 31 Rhagfyr 2020. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am [derfynau dalfa ar gyfer y categori 10m neu llai](#). Gwelwch eich trwydded am fanylion ar derfynau dalfa eraill.

O 1 Ionawr, ni ddylai cychod y DU a chychod yr UE bysgota yn nyfroedd ei gilydd heb drwydded.

I ddechrau, bydd yr [Awdurdod Dyroddi Unigol](#) (SIA) newydd ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhoi trwyddedau i gychod cymwys y DU i bysgota yn nyfroedd yr UE, ac i gychod cymwys o'r tu allan i'r DU i bysgota yn nyfroedd y DU ym Mharth Economaidd Neilltuedig 12–200 milltir forol y naill barti neu'r llall.

Danfonwyd trwyddedau ar gyfer cychod y DU a chychod nad ydynt yn dod o'r DU i bysgota yn mharth 6–12 milltir forol ei gilydd ar 29 Ionawr 2021, ar ôl i'r meini prawf cymhwysedd cael eu cadarnhau a'u sicrhau.

Bydd yr Awdurdod Dyroddi Unigol hefyd yn rhoi trwyddedau i bysgota yn nyfroedd Norwy ac Ynysoedd Ffaröe, pan fydd trafodaethau wedi'u cwblhau, fel sy'n digwydd bob blwyddyn.

Mae'r Awdurdod Dyroddi Unigol y DU wedi danfon trwydded dŵr allanol at deiliaid trwyddedau yn uniongyrchol drwy e-bost, a hefyd bydd rhestr o gychod trwyddedig y DU ar gael ar ei wefan.

- Er mwyn sicrhau bod gennych y drwydded briodol, dylech wneud y canlynol:
- Sicrhau bod eich cychod wedi'i gofrestru gyda [Chofrestr Llongau'r DU](#)
- Gwneud cais am rif IMO (y Sefydliad Morol Rhyngwladol) (os yw eich cychod dros 12 metr o hyd) – lawrlwythwch [ffurflen gofrestru'r IMO](#)
- Sicrhau bod gan yr Awdurdod Dyroddi Unigol eich cyfeiriad e-bost: cysylltwch â [uksia@marinemanagement.org.uk](mailto:uksia@marinemanagement.org.uk) gyda manylion eich cwch
- Gwneud cais am drwydded [os nad oes gennych un eisoes](#). (I gael cyngor ar sut i drosglwyddo trwydded cliciwch [yma](#))

## Cofnodi eich dalfa a'ch gwerthiant

- Cychod o dan 10m – [cofnodwch ar yr ap](#) dalfeydd yn unol ag amod eich trwydded
- Cychod 10-12m – [cyflwynwch lyfrau log papur](#) a datganiadau glanio o fewn 48 awr; os ydych yn cwblhau llyfr log electronig rhaid ei gyflwyno yn unol â'r gofynion ar gyfer cychod dros 12m
- Cychod dros 12m – [cyflwynwch lyfrau log electronig](#) cyn glanio, a datganiadau glanio o fewn 24 awr i lanio
- Rhaid i [nodiadau gwerthu](#) gyrraedd o fewn 24 awr i'r gwerthiant cyntaf drwy'r System Adrodd Electronig neu o fewn 48 awr os cânt eu cyflwyno drwy'r post.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#). Mae llyfrau log, datganiadau glanio, cofnodion dalfa a nodiadau gwerthu yn hanfodol i ddyfodol ein diwydiant pysgod a bwyd môr.

Y data y maent yn ei ddarparu am ba bysgod sy'n cael eu tynnu allan o'r môr, ble a

phryd, yw'r dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i wneud ei phenderfyniadau, a dadlau o blaid achos y diwydiant, mewn perthynas â chwotâu, trafodaethau, cau, deddfwriaeth amgylcheddol, cyllid a grantiau, datblygu porthladdoedd, cymeradwyo allforion a mwy.

Er mwyn cydymffurfio bydd angen i bysgotwyr gyflwyno'r holl lyfrau log, datganiadau glanio a chofnodion dalfeydd yn gywir erbyn y dyddiad cau cyfreithiol.

Yn bwysig, rhaid i'r data mewn llyfrau log, cofnodion dalfa, datganiadau glanio a nodiadau gwerthu fod yn gyson cyn y gellir cynhyrchu [tystysgrifau dalfeydd y DU](#) ar gyfer allforio'r ddalfa i'r UE, felly mae'n bwysig bod pysgotwyr yn sicrhau bod gan fasnachwyr y dyddiad glanio cywir ar gyfer pob llwyth.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich data'n gywir ac yn brydlon. Yn ogystal â bod yn ofyniad cyfreithiol i fodloni'r terfynau amser, o 1 Ionawr 2021 os nad yw eich dogfennau yn cael eu cyflwyno'n brydlon gallech beryglu gallu eich prynwr i werthu ac allforio eich dalfa.

## **Glanio eich dalfa yn y DU**

Gall unrhyw gwch trwyddedig sydd wedi'i gofrestru ym Mhrydain Fawr lanio ddalfa mewn unrhyw borthladd ym Mhrydain Fawr. Mae pysgota'n cael ei reoleiddio'n dda yng Nghymru ac yn y DU i ddiogelu stociau pysgod cynaliadwy ac atal Pysgota Anghyfreithlon ac Anrheoleiddiedig na Hysbysir amdano (IUU).

## **Gwerthu eich dalfa**

Pan yn gwerthu'ch dalfa, rhaid i chi sicrhau eich bod yn ei werthu i brynwr cofrestredig. Rhaid i unrhyw un sy'n gwerthu pysgod mewn ocsiwn gael ei gofrestru o dan y [Cynllun Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr](#) . Rhaid i unrhyw un sy'n prynu

pysgod gwerthiant cyntaf at ddibenion masnachol gofrestru o dan y cynllun hwn hefyd.

Rhaid [cyflwyno](#) nodiadau gwerthu erbyn y dyddiad cau cyfreithiol. Rhaid iddynt gyrraedd o fewn 24 awr i'r gwerthu ar gyfer busnesau mwy ac eraill sy'n defnyddio'r System Adrodd Electronig (ERS), neu o fewn 48 awr drwy'r post, neu ar gyfer busnesau llai (gyda throsiant o lai na £200k) y caniateir iddynt ddefnyddio nodiadau gwerthu papur. Mae cyflwyno'n hwyr nid yn unig yn anghyfreithlon, gallai hefyd effeithio ar allu eich masnachwr i werthu eich dalfa ymlaen. Mae'n bwysig iawn bod gan y nodyn gwerthu yr un dyddiad glanio â'r llyfr log electronig /llyfr log papur /cofnod dalfa a datganiad glanio er mwyn galluogi cyhoeddi tystysgrifau dalfa i'w hallforio.

## **Glanio eich dalfa yn yr UE**

O 1 Ionawr 2021 mae cychod sydd wedi eu cofrestru ym Mhrydain Fawr yn gallu glanio pysgod i borthladdoedd yr UE sydd wedi'u dynodi o dan reoliadau [Comisiwn Pysgodfeydd Gogledd Ddwyrain yr Iwerydd](#) (NEAFC). Bydd angen ichi gofrestru eich cwch gyda [System Rheoli Cyflwr Porthladd NEAFC](#). Gellir glanio pysgod ffres yn unrhyw [borthladd dynodedig NEAFC](#). Os ydych yn Gapten neu'n Feistr cwch ffatri neu gwch rhewgell sy'n rhan o sefydliad bwyd cymeradwy, bydd angen ichi laniu mewn [Safle Rheoli Ffiniau \(BCP\)](#) a all ymdrin â'ch math o gynnyrch – edrychwch ar eich llwybr masnach ymlaen llaw i weld pwy yw ['awdurdod cymwys' perthnasol yr UE](#).

Cyn glanio, rhaid ichi gyflwyno [hysbysiad ymlaen llaw](#) i Awdurdod Cymwys yr UE hyd at 4 awr ymlaen llaw ar gyfer pysgod ffres a hyd at 72 awr ymlaen llaw ar gyfer

pysgod wedi'u rhewi. Bydd angen ichi hefyd gyflwyno [datganiad cyn glanio](#) o leiaf 4 awr ymlaen llaw.

Bydd rhaid ichi gwblhau [tystysgrif dalfeydd y DU](#) ar gyfer y ddalfa rydych yn bwriadu ei glanio.

Bydd cychod rhewgell, riffiwr neu ffatri sydd wedi eu cymeradwyo gan Awdurdodau Lleol sy'n glanio pysgod wedi'u rhewi neu eu prosesu yn uniongyrchol yn yr UE hefyd angen [Tystysgrif Capten](#) wedi'i llofnodi gan Capten sydd wedi'i awdurdodi gan APHA (Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion) neu DAERA (Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig). Nid yw hyn yn berthnasol i bysgod ffres.

Bydd rhaid ichi gofrestru i wneud eich [datganiadau tollau](#), allforio a'ch datganiadau TAW ar gyfer CThEM. Gweler y ddolen a'r adran ar dollau isod i gael rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau sydd eu hangen. Gweler [rhestr wirio ddefnyddiol y Sefydliad Rheoli Morol](#) ar gyfer glanio pysgod a chynnyrch pysgod yn yr UE o 1 Ionawr 2021.

## **Glanio eich dalfa yng Ngogledd Iwerddon**

Mae rheolau newydd yn berthnasol i gychod o Brydain Fawr sy'n glanio dalfeydd yng Ngogledd Iwerddon a bydd angen dogfennau eraill. [Mae rhagor o ganllawiau ar gael yn y ddolen hon.](#)

## **Labelu Bwyd**

Mae angen newidiadau ar gyfer labelu bwyd. [Mae canllawiau pellach ar gael.](#)



## Allforio eich dalfa neu gynnyrch pysgod i'r UE

Mae cynghorwyr arbenigol ar gael 24/7 i helpu gyda'r Gwasanaeth Allforio Pysgod – ffoniwch 0330 159 1989.

- Mae'r fersiwn ddiweddaraf o [Fodel Gweithredu Ffiniau Prydain Fawr-UE](#) yn rhoi manylion y gofynion penodol ar gyfer allforio pysgod a physgod cregyn ar [dudalen 204](#).

Mae'r Sefydliad Rheoli Morol wedi cynhyrchu [map prosesau defnyddiol ar gyfer allforio](#).

- Mae'n bosibl y bydd eich pysgod yn cael eu hoedi neu eu gwrthod pan fyddant yn cyrraedd yr UE os nad oes gennych y dogfennau cywir neu os ydynt yn mynd drwy'r [Safle Rheol Ffiniau anghywir](#)

Y camau mae'n rhaid ichi eu cymryd i allforio pysgod a chynhyrchion bwyd môr :

- Cofrestru ar gyfer [Tystysgrifau lechyd Allforio](#).
- [Cael eich Tystysgrifau lechyd Allforio ar-lein](#). Rhaid i dreill-longau ffatri / rhewgell wneud cais am Dystysgrifau lechyd Allforio (ond nid oes eu hangen ar gyfer glanio pysgod ffres – mae angen Tystysgrif Capten ar y rhain)
- Cadw 'swyddog ardystio' i'ch helpu i ardystio eich [Tystysgrifau lechyd Allforio](#).
- Gwneud cais am rif [EORI y DU](#)
- Gwneud cais am rif IMO (os yw eich cwch dros 12 metr o hyd) – [lawrlwythwch y ffurflen gofrestru IMO](#)
- Cydymffurfio â [gofynion hylendid bwyd](#)
- Allforio drwy [safleoedd cymeradwy'r UE](#)
- Cydymffurfio â [gofynion labelu bwyd yr UE](#)

- Ar gyfer rhywogaethau sydd mewn perygl mae angen [trwydded allforio CITES](#) arnoch

## Cludo cysgod a chynhyrchion pysgod

- Canllawiau ar sut i [gludo pysgod a chynhyrchion pysgod](#).
- Gofynion [gyrru cludwyr ar gyfer gyrru yn yr UE](#)
- Os bydd oedi difrifol ym mhorthladd Dover neu Eurotunnel rhoddir blaenoriaeth i gerbydau nwyddau trwm sy'n cludo dim ond bwyd môr ffres a byw. [Dyma ganllawiau GOV.UK](#)

## Storio a Phrosesu

Bydd angen [dogfennau storio'r DU](#) a [dogfennau prosesu'r DU](#) ar gyfer pysgod a physgod cregyn sydd wedi'u mewnforio neu eu glanio'n uniongyrchol i'r DU i'w prosesu, neu eu storio, yn barod i'w hallforio.

Bydd angen dogfennau ar wahân arnoch ar gyfer pob allforyn ac ar gyfer pob gwaith prosesu.

## Mewnforio o'r UE i'r DU

Rhoddyd amser ychwanegol i fewnforwyr wneud y [trefniadau angenrheidiol](#). O 1 Ionawr, bydd angen i'r rhan fwyaf o fewnforyn pysgod morol a rhai pysgod cregyn gael tystysgrif dalfa o'r wlad wreiddiol ynghyd â dogfennau perthnasol eraill.

O fis Ebrill 2021, bydd angen [Tystysgrifau Iechyd Allforio](#) (EHCs) ynghyd â gofynion cyn-hysbysu newydd ac o fis Gorffennaf ymlaen, rhaid i nwyddau sy'n destun rheolaethau glanweithdra a ffytoiachydol (SPS) gyrraedd [Safle Rheoli Ffiniau](#)

[sefydledig](#) (BCP). Ceir rhagor o fanylion am y gofynion mewnforio ar gyfer bwyd môr ar dudalennau 61, 94 a 123 y [Model Gweithredu ar y Ffin](#).

## **Symud nwyddau i mewn, allan o Ogledd Iwerddon neu drwyddo**

Mae rhagor o wybodaeth am y prosesau sydd eu hangen ar gyfer symud pysgod neu gynhyrchion bwyd môr i Ogledd Iwerddon, drwyddi neu oddi yno ar gael yn y ddolen [hon](#).

Gall llinell gymorth y [Cynllun Cymorth Symud](#) newydd roi cyngor ichi ar symud nwyddau bwyd-amaeth o Brydain Fawr (Lloegr, yr Alban a Chymru) i Ogledd Iwerddon, a chewch hawlio arian yn ôl os ydych yn darparu gwasanaeth archwilio ac ardystio.

Ffôn: 0330 0416 580 rhwng 9am a 5pm ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc)

## **Cwotâu Pysgota**

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd terfynau dros dro yn cael eu gosod ar ddalfeydd ar gyfer pysgotwyr yn y DU, i sicrhau bod pysgota'n parhau'n ddi-dor nes y gellir cwblhau trafodaethau â'r UE, Norwy ac Ynysoedd Ffaröe. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y [datganiad i'r wasg](#) ac ar y [wefan](#).

## **Cyllid a grantiau**

Yng Nghymru bydd dull dau gam o ariannu'r sector morol a physgodfeydd yn y dyfodol sy'n disodli Cronfa Forol a Physgodfeydd Ewrop, a bydd y cam cyntaf yn cael ei lansio yn gynnar yn 2021.

## Rheoli datganiadau'r tollau a datganiadau TAW

Gallwch gofrestru nawr a chael cymorth i wneud eich [datganiadau tollau allforio a'ch](#) datganiadau TAW ar gyfer CThEM. Mae manylion y prosesau sydd eu hangen ar gael ar y wefan hon.

Mae rheolau allforio'r tollau'n berthnasol i:

- Pysgod wedi'u dal yn nyfroedd y DU gan gychod pysgota sydd wedi'u cofrestru ym Mhrydain Fawr sy'n cael eu hallforio i'r UE
- Pysgod sydd wedi cael eu mewnforio o wlad arall a'u storio neu eu prosesu yn y DU, sydd wedyn yn cael eu hallforio i'r UE
- Pysgod sy'n cael eu glanio yn uniongyrchol ym [mhorthladdoedd yr UE](#) gan gwch pysgota wedi'i gofrestru ym Mhrydain Fawr
- Pysgod sy'n cael eu glanio'n uniongyrchol gan gychod wedi'u cofrestru yn yr UE sy'n pysgota yn nyfroedd y DU, os ydynt am lanio ym mhorthladd yn yr UE
- Nid oes angen datganiad allforio Prydain Fawr arnoch ar gyfer pysgod wedi'u dal yn nyfroedd rhyngwladol gan gychod wedi'u cofrestru ym Mhrydain Fawr os ydynt yn cael eu glanio'n uniongyrchol yn nyfroedd yr UE

Mae rhagor o ganllawiau ar y mater hwn ar gael yng nghylchlythyr CThEM [yma](#).

Hefyd mae [gwefan](#) y System Gludo Gyfrifiadurol newydd a llinell gymorth ar gael ar 0300 322 7095 rhwng 8am a 5pm ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os ydych yn parhau i brofi problemau wrth gludo nwyddau drwy'r tollau, e-bostiwch DEFRA yn [FishTrade@defra.gov.uk](mailto:FishTrade@defra.gov.uk)

Cewch gofrestru nawr i gael cymorth i wneud eich [datganiadau allforio ar gyfer CThEM a'ch datganiadau TAW](#).

## **Rheoli a gorfodi**

Mae'r rhan fwyaf o'r rheolau presennol wedi'u dargadw yng nghyfraith newydd y DU ac maent yn parhau i fod ar waith ar ôl 1 Ionawr 2021.

Mae yn ofynnol i gychod pysgota bysgota yn unol ag amodau eu trwyddedau o 11pm ar 31 Rhagfyr 2020. Mae pysgota heb drwydded yn anghyfreithlon.

Mae gan bob cwch yr hawl i 'daith ddiniwed' drwy ddyfroedd tiriogaethol eraill o dan UNCLOS (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr).

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro moroedd Cymru am Bysgota Anghyfreithlon ac Anrheoleiddiedig na Hysbysir amdano er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ein moroedd a chefnogi ein diwydiant pysgota.

Bydd angen i bysgotwyr y DU barhau i gydymffurfio ag amodau eu trwydded a sicrhau bod cofnodion fel datganiadau glanio, llyfrau log a chofnodion dalfeydd ar gyfer cychod dan 10m, sydd i gyd yn ofynion cyfreithiol, yn cael eu cyflwyno'n gywir ac yn brydlon.

Er mwyn parhau i allforio pysgod a chynhyrchion pysgodfeydd i gwsmeriaid yn yr UE, bydd yn ofynnol i allforwyr gyflwyno tystysgrifau dalfeydd sy'n cael eu galluogi gan ddata fel datganiadau glanio, llyfrau log a nodiadau gwerthu.

## **Gwybod y terfynau.**

Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r DU o dan UNCLOS and SOLAS (Diogelwch Bywyd yn y Môr), mae terfyn môr tiriogaethol y DU, y Parth Economaidd Neilltuedig, ffiniau morol rhyngwladol a'r terfynau pysgota 6 a 12 milltir forol ar gael yn Siartiau Morol Safonol a Siartiau Mordwyo Electronig ADMIRALTY Swyddfa

Hydrograffeg y DU. Mae'r rhain ar gael gan asiantiaid Siartiau ADMIRALTY. Mae rhestr o'r asiantiaid hyn a'u lleoliadau [yma](#).

Er mwyn rhoi enghreifftiau, mae diagramau a ffeiliau siâp (ffeiliau data digidol) ar gael ym [Mhorth Data Morol ADMIRALTY Swyddfa Hydrograffeg y DU](#).

## Mudiadau lles a llesiant sy'n darparu cefnogaeth

- [Fishermen's Mission](#) - Yn cynnig cymorth ariannol brys ar gyfer cynnal hanfodion byw a darparu gofal bugeiliol.
- [Seafarers' Advice and Information Line \(SAIL\)](#) - Rhan o'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) sy'n cynnig cyngor arbenigol i bysgotwyr, gan gynnwys cyngor ariannol annibynnol ar hawl i fudd-daliadau, materion CThEM, dyledion, grantiau elusennol a thai.
- [Seafarers' Hospital Society](#) -- Yn cynnig cyngor ar iechyd a llesiant i deuluoedd morwyr masnach a physgotwyr
- [Seafarer Support](#) - Canllawiau sy'n gwasanaethu llongwyr a chyn-longwyr y DU a'u teuluoedd tuag at gymorth perthnasol ar adegau o angen.

## Rhagor o wybodaeth a chymorth

### Adran Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru

E-bost: [milfordhavenfisheriesoffice@gov.wales](mailto:milfordhavenfisheriesoffice@gov.wales)

Ffôn: 03000 253500

- **Gwasanaeth Allforio Pysgod** - Llinell gymorth ar gyfer cofrestru o 19 Hydref:  
03300 416579
- **APHA** – E- bost [fish.exports@apha.gov.uk](mailto:fish.exports@apha.gov.uk)

- **Llinell Gymorth Tollau CThEM a Masnach Ryngwladol : 0300 300 3700**